1 Hydref 2025

Annwyl

**ATISN 25120**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 03 Medi 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

**1. Ymhellach i'r wybodaeth ar dudalen 8 'Dog 2' mewn ymateb i ATISN 24982 (Datganiad rhyddid gwybodaeth 24892: Y Gymraeg | LLYW.CYMRU), copi o adroddiad (ac ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion lle bo'n berthnasol) 'Adroddiad Cymunedau Cymraeg' a gyfeirir ato ar frig y dudalen honno.**

**2.Yng nghyd-destun datblygu setiau o reoliadau safonau'r Gymraeg, dogfen/ymateb/gohebiaeth sy'n cynnwys unrhyw awgrym boed (i) gan Gomisiynydd y Gymraeg, neu (ii) rywrai eraill, y dylai'r safonau gweithredu gynnwys safon a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddynodi eu gweithleoedd yn ôl cyfrwng ieithyddol gweinyddiaeth fewnol y gweithle, er enghraifft fel rhai sy'n gyfrwng Cymraeg, Cymraeg yn bennaf gyda pheth Saesneg, dwyieithog, Saesneg yn bennaf gyda pheth Cymraeg, neu Saesneg yn unig.**

**Ein hymateb**

Mewn ymateb i'ch cais cyntaf, mae rhywfaint o'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o dan adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – gwybodaeth sy'n rhesymol hygyrch trwy ddulliau eraill. Ond er hwylustod, rwy'n darparu dolen at y ddogfen:

- Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith

Yn ogystal, amgaeaf yr wybodaeth ganlynol ar ffurf dogfen pdf:
- Dogfen 1 - Ymateb i Adroddiad Cymunedau Cymraeg CY

Mewn ymateb i'ch ail gais am wybodaeth, mae fy asesiad cychwynnol yn amcangyfrif y byddai'n costio mwy na'r terfyn addas a nodwyd yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ateb eich cais. Y terfyn addas a bennwyd ar gyfer y llywodraeth ganolog yw £600. Dyma amcangyfrif o'r hyn y byddai'n ei gostio os yw'n debygol o gymryd mwy na 24 awr i bennu a oes gennym yr wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw a thynnu'r rhannau perthnasol ohoni.

Er mwyn darparu'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, byddai'n rhaid pori drwy miloedd o ddogfennau posib er mwyn canfod os ydynt yn cynnwys yr wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani. Er enghraifft, dyma rai o'r termau yr ydym wedi defnyddio i chwilio am y wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani, a nifer y canlyniadau:

| Term chwilio | Nifer y canlyniadau |
|---|---|
| "cyfrwng ieithyddol gweithle" | 9,028 |
| "cyfrwng ieithyddol gweithleoedd" | 3,037 |
| "cyfrwng ieithyddol gweithleoedd safonau" | 2,543 |
| "cyfrwng ieithyddol gweithleoedd rheoliadau safonau" | 1,486 |

Mae'n debygol bod rhai dogfennau wedi'u dal fwy nag unwaith wrth ddefnyddio'r termau chwilio uchod, ac na fyddai pob un o'r dogfennau yn cynnwys y wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani. Fodd bynnag, er mwyn gallu cadarnhau hynny â sicrwydd, byddai angen i ni angen adolygu nifer sylweddol o wybodaeth. Rydym yn amcangyfrif y byddai'n cymryd o leiaf 45 eiliad i wirio e-bost, ac

amser hirach i wirio dogfennau i weld os ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol i'ch cais. Ar sail nifer y canlyniadau uchod byddai hynny yn golygu treulio mwy na 24 awr yn chwilio trwy wybodaeth. Felly, rwyf wedi penderfynu peidio â darparu'r wybodaeth i chi.

Mae'n bosibl yr hoffech fireinio eich cais drwy ddatgan yn fwy penodol pa wybodaeth yr hoffech ei chael, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau neu gyfnod amser sy'n berthnasol i'r wybodaeth. Os byddwch yn dewis mireinio eich cais fel hyn, bydd yn cael ei drin fel cais newydd.

Mae'n bosib y bydd y dogfennau canlynol sydd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ac sydd yn cynnwys penodau penodol ar Weithluoedd Cymraeg o ddiddordeb:

- Adroddiad Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg | LLYW.CYMRU (Pennod 5 Gweithleoedd Cymraeg)
- Adroddiad Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg: ymateb Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU (Pennod 6 Gweithleoedd Cymraeg)

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir